# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**DRAFT**

**Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hadau (Ffioedd) 1985. Maent yn rhagnodi ffioedd diwygiedig o ran materion sy’n codi o dan y Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Hadau Grawn 1993
- Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant 1993
- Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr 1993
- Rheoliadau Hadau Betys 1993
- Rheoliadau Hadau Llysiau 1993
- Rheoliadau Hadau (Cofrestru, Trwyddedu a Gorfodi) 1985.

Mae Arfarniad Rheoliadaol wedi’i baratoi.

Gwnaed darpariaethau tebyg (O.S. Rhif 2000/1542) ar gyfer Lloegr ar

7 Mehefin 2000 a daethant i rym ar 7 Gorffennaf 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nodwyd bod yr Atodlenni a fewnosodwyd, sef 1, 3 a 6, yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol –

- Mae eitemau D ac E yn Atodlen 1 ac eitem D yn Atodlen 3 yn cyfeirio at alwad am dalu ffioedd sy’n cael ei wneud gan neu ar ran "the appropriate Minister".

- Mae Eitem A yn Atodlen 6 yn cyfeirio at ffioedd am gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i "the Minister" (neu at gael gwrandawiad gan berson a benodwyd ganddo).
- Mae Eitem B yn Atodlen 6 yn cyfeirio at alwad am dalu ffioedd sy’n cael ei wneud gan "the Minister".

Nodwyd ymhellach –

- Bod y geiriad hwn yr un fath yn yr Atodlenni 1, 3 a 6 a oedd yn bodoli ynghynt ac a fewnosodwyd yn Rheoliadau 1985 ar 1 Gorffennaf 1999.

- Bod "the appropriate Minister" wedi'i ddiffinio yn Rheoliadau 1985 i olygu, yn achos Cymru, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

- Bod "the Minister" wedi'i ddiffinio yn Rheoliadau 1985 i olygu, yn achos Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol.

- Bod Erthygl 3 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, lle mae swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol wedi'u trosglwyddo.

- Na chafodd swyddogaethau o dan Ddeddf Rhywogaethau a Hadau Planhigion 1964 eu trosglwyddo i'r Cynulliad o dan Atodlen 1 i Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999ond i'r graddau yr oeddent wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan orchymyn trosglwyddo swyddogaethau 1978.

Gan hynny, mae angen codi'r cwestiynau canlynol gyda Gweinidog priodol y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 11.4 –

1. O ystyried yr uchod, a yw'n wir bod swyddogaethau'r "Minister" wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad ond bod swyddogaethau'r "appropriate Minister" wedi'u breinio o hyd yn y Gweinidog Amaethyddiaeth?

2. Os felly, oni fyddai wedi bod yn fwy boddhaol pe bai'r Rheoliadau wedi cyfeirio at swyddogaethau'r Cynulliad fel dyletswyddau'r Cynulliad, a hynny o safbwynt eglurder ac ar y sail na ellir rhagdybio o reidrwydd fod Erthygl 3 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 yn gymwys i Atodlenni a fewnosodwyd ar ôl i'r gorchymyn hwnnw ddod i rym?

Yn ychwanegol at yr uchod, cyfeirir at y pwyntiau llai pwysig canlynol –

- Gall y frawddeg olaf ym mharagraff cyntaf y nodyn esboniadol fod yn gamarweiniol. Mae'n golygu bod y rheoliadau yn cynnwys darpariaeth ynghylch ffioedd arholiadau sy'n ychwanegol at y diwygiadau sydd eisoes wedi'u disgrifio yn y paragraff hwnnw. Ond mae'r ddarpariaeth ynghylch ffioedd arholiadau wedi'i chynnwys yn y diwygiadau sydd wedi'u gwneud i reoliadau Cofrestru 1985.

- Er bod y rheoliadau wedi'u gwneud o dan y weithdrefn weithredol nid yw dyddiad eu gwneud yn ymddangos ar y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deddfau.

**J H TURNBULL**
Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-010387

**11 Medi 2001**